Dechrau ar eich Gyrfa

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

2010

Cynnwys

Cyflwyniad 4

Y Swydd 5

Cytundeb a Thelerau 5

Materion cychwynnol eraill: 5

- Prawf meddygol 5
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru 5
- Archwiliad CRB 5
- Yr Awdurdod Diogelu Annibynnol – ADA (*Independent Safeguarding Authority – ISA*) 6

Gwaith Cyflenwi 6

Gweithio trwy asiantaeth athrawon 6

Cyfnod Sefydlu 8

Y Prif Bwyntiau 8

Athrawon Cyflenwi 8

Cyfrifoldebau'r Ysgol 9

Os ydych yn anfodlon â'r trefniadau 9

Ar ddiwedd y Cyfnod Sefydlu 10

Cyflog 11

Y Brif Raddfa Gyflog 11

Amrediad Cyflog Uwch 12

Treth Incwm 12

Yswiriant Gwladol 12

Cynllun Pensiwn 12

Taliadau Ychwanegol 13

- Grantiau Dysgu 13
- Taliadau Recriwtio a Chadw 13
- Lwfansau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD) 14
- Lwfansau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) 14

Amodau Gwaith 15
Oriau Gwaith 15
Tasgau Gweinyddol a Chlerigol 16
Amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA) 17
Arholiadau 18
Prin Gyflenwi (*Rarely cover*) 18
Amser a enillwyd (*Gained time*) 19
Absenoldeb Salwch 19
Absenoldebau Eraill 19
Trefniadau Cwyno a Disgyblu 20
Terfynu Cytundeb 20
Diswyddo/Adleoli 20

Cyngor Cyffredinol 21
Perthynas gyda disgyblion 21
Facebook 21
Rhoi moddion 22

Talfyriadau Defnyddiol 23

Gwefannau Defnyddiol 26

UCAC 27
Aelodaeth 27
Hanes a Phwrpas UCAC 27
Gwasanaethau UCAC 28

Cyflwyniad

Mae addysgu yn swydd sy'n cynnig tipyn o her, ond daw â phleser a boddhad i weld disgyblion yn datblygu o dan eich gofal. Bwriad y llyfryn hwn yw rhoi rhywfaint o gyngor ymarferol a gwybodaeth gyffredinol wrth i chi ddechrau yn eich swydd ddysgu gyntaf.

Nid oes modd cynnwys pob manylyn mewn llyfryn, felly os nad yw'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch yma, cofiwch:

- fod swyddogion UCAC bob amser yn hapus i gynnig cyngor ac arweiniad i chi
- fod gan UCAC nifer o daflenni gwybodaeth ar amryw o bynciau penodol; cyfeirir at rai ohonynt yn y llyfryn hwn, ac mae'r rhestr lawn, ynghyd â'r taflenni eu hunain, ar gael ar wefan UCAC: www.athrawon.com
- y llyfrynnau a dderbynioch cyn hyn sef, **Profiad Dysgu** a **Chwilio am Swydd**; mae'n bosib y bydd llawer o'r wybodaeth yn dal yn berthnasol i chi nawr

Pob hwyl i chi wrth i chi ddechrau ar eich gyrfa fel athro neu athrawes. Cofiwch fod UCAC yn cynnig cymorth parod o fewn cyrraedd, felly codwch y ffôn am sgwrs, neu anfonwch neges unrhyw bryd.

Elaine Edwards
Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC

Y Swydd

Cytundeb a Thelerau
Yn dilyn cyfweliad llwyddiannus, byddwch wedi cael cynnig y swydd ar lafar, ac wedi ei derbyn ar lafar. Yn ddiweddarach, dylech dderbyn llythyr yn cynnig y swydd i chi'n ffurfiol ynghyd â manylion am:

- ddiffiniad y swydd
- ddyddiad dechrau'r swydd
- natur y cytundeb (parhaol/dros dro, llawn amser/rhan amser, ac ati)
- y cyflog cychwynnol

Os na fyddwch wedi derbyn y pethau hyn, gofynnwch amdanynt er mwyn diogelu'ch hun. Dylech hefyd dderbyn copi o'r amodau cyflogaeth, er mae'n bosib y cewch chi'r ddogfen hon ar ôl dechrau yn y swydd.

Unwaith i chi gadarnhau'n ysgrifenedig eich bod yn derbyn y swydd, byddwch chi a'ch darpar gyflogwr wedi'ch rhwymo gan gytundeb. Sicrhewch fod yr amodau a'r telerau'n dderbyniol ac yn cyd-fynd â diffiniad y swydd a gynigiwyd i chi. Os oes gennych unrhyw amheuon, gofynnwch am eglurhad pellach.

Sicrhewch eich bod yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig o delerau'r swydd CYN i chi ddechrau ar eich swydd, fel nad oes modd i'r cyflogwr newid y telerau.

Os gwrthodwch y swydd ar ôl cadarnhau'n ysgrifenedig eich bod yn ei derbyn, byddwch yn euog o dor-cytundeb. Gallech fod yn gyfrifol am dalu unrhyw gostau ychwanegol pe bai'n rhaid i'r cyflogwr ail-hysbysebu ac ail-gyfweld. Er mai prin yw'r achosion hyn, mae'n well peidio â derbyn swydd oni bai eich bod yn hollol sicr.

Materion cychwynnol eraill

Prawf meddygol: Efallai y bydd angen i chi gael prawf meddygol cyn i chi ddechrau gweithio.

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC): Rhaid i bob athro a phob unigolyn sy'n hyfforddi i fod yn athro gofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Mae CyngACC yn gwirio addasrwydd athrawon ar gyfer y proffesiwn; fel rhan o'r gwiriad hwn byddant yn gwneud Archwiliad CRB (gweler isod).

Archwiliad CRB: Roedd eich ffurflen gais yn cynnwys rhan ar droseddau cyfreithiol. Wedi i chi gael swydd,

bydd yr Awdurdod Addysg Lleol hefyd yn gwneud archwiliad i gofnodion yr heddlu (*Criminal Records Bureau [CRB] check*) i weld a oes unrhyw gofnod yno fyddai'n eich gwneud yn anaddas i weithio fel athro.

Yr Awdurdod Diogelu Annibynnol – ADA (*Independent Safeguarding Authority – ISA*): O fis Tachwedd 2010 ymlaen mi fydd yn ofynnol i unrhyw un sy'n dechrau ar swydd addysgu newydd gofrestru gyda'r Awdurdod Diogelu Annibynnol – yr ADA. Mae modd cofrestru o fis Gorffennaf 2010 ymlaen. Bydd yr ADA hefyd yn gwneud archwiliad CRB.

Am ragor o wybodaeth, ewch i'r wefan berthnasol:

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru:
www.gtcw.org.uk

Swyddfa Cofnodion Troseddol:
www.crb.homeoffice.gov.uk/default.aspx?lang=cy-gb

Yr Awdurdod Diogelu Annibynnol:
www.isa-gov.org.uk

Gwaith Cyflenwi
Efallai y byddwch yn gorfod dechrau ar eich gyrfa trwy ymgymryd â chyfnodau o waith cyflenwi. Os felly, anfonwch eich manylion yn uniongyrchol at ysgolion neu Awdurdodau Addysg Lleol, er mwyn iddynt ddod i wybod amdanoch. Efallai y bydd modd i chi ymweld ag ysgolion yn eich ardal i gyflwyno'ch manylion yn bersonol.

Gweithio trwy asiantaeth athrawon
Mae rhai athrawon cyflenwi yn gweithio trwy asiantaethau athrawon. *Byddwch yn wyliadwrus o weithio trwy asiantaeth.* Mae angen i chi fod yn ymwybodol o'r ffeithiau canlynol:

- cofiwch mai busnes yw asiantaeth sy'n bodoli i greu elw
- mae'r cyflog yn llai na chyflog athrawon cyflenwi sy'n gweithio'n uniongyrchol i'r ysgol
- gan amlaf nid oes cyfraniad i gynllun pensiwn nac unrhyw gynllun salwch
- nid yw'r mwyafrif o asiantaethau'n cynnig Hyfforddiant Mewn Swydd
- mae'n gallu bod yn anoddach i Athro Newydd Gymhwyso gwblhau Cyfnod Sefydlu wrth weithio trwy asiantaeth

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno Marc Ansawdd ar gyfer asiantaethau. Mae UCAC wedi beirniadu safonau'r Marc Ansawdd gan nad ydynt yn mynd yn ddigon pell i ddiogelu athrawon. Serch hynny, mae'n bosib y bydd asiantaeth sydd wedi derbyn y Marc Ansawdd yn fwy parod i drafod materion megis Cyfnod Sefydlu gyda chi, ac i hwyluso cyfleoedd ar gyfer Hyfforddiant Mewn Swydd.

Os ydych yn teimlo nad oes gennych ddewis ond gweithio trwy asiantaeth, cyn ymrwymo'ch hun i gytundeb, holwch gwestiynau pwrpasol iddynt a chymharwch delerau asiantaethau amrywiol.

Dyma rai cwestiynau posib:

- A oes modd i chi ddod o hyd i gyfnod o waith hirdymor i mi, a sicrhau bod modd i mi gwblhau Cyfnod Sefydlu wrth weithio i chi?
- Faint o gyflog y byddaf yn ei dderbyn am ddiwrnod o waith (cyn/ar ôl tynnu cyfraniad Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol)?
- A fyddaf yn talu canran o'm tâl i Bensiwn Athrawon?
- A fyddwch chi'n talu cyfraniad cyflogwr i Bensiwn Athrawon?
- Beth fydd yn digwydd o ran tâl os byddaf yn sâl?
- A ydych yn darparu Hyfforddiant Mewn Swydd?

Os nad ydych wedi dod o hyd i swydd barhaol eto, gweler:

- llyfryn UCAC 'Chwilio am Swydd' am gyngor perthnasol
- gwasanaeth chwilio am swyddi 'Swyddfan' ar wefan UCAC (www.athrawon.com)

Cyfnod Sefydlu

Y Prif Bwyntiau
Mae pob athro newydd gymhwyso (ANG) yn gorfod gwneud a chwblhau Cyfnod Sefydlu. Rhaid eich bod wedi ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC), a chofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CyngACC) cyn dechrau ar eich Cyfnod Sefydlu.

Rhaid cwblhau rhaglen Cyfnod Sefydlu o dri thymor o leiaf (neu gyfnod cyfwerth, h.y. blwyddyn).

Os ydych yn gweithio'n rhan-amser, cyfrifir y Cyfnod Sefydlu *pro rata*. Bydd angen i'ch Cyfnod Sefydlu gyfateb i 380 o sesiynau ysgol arferol. Chi, eich Tiwtor a'ch Pennaeth fydd yn penderfynu union hyd eich Cyfnod Sefydlu.

Os ydych yn gweithio mewn mwy nag un ysgol ar yr un pryd, rhaid i un Pennaeth weithredu fel y Pennaeth arweiniol.

Os byddwch yn symud ysgol yn ystod y Cyfnod Sefydlu, hysbyswch eich ysgol newydd eich bod wedi dechrau ar eich Cyfnod Sefydlu. Cyfrifoldeb eich hen ysgol fydd anfon yr holl waith papur i'ch ysgol newydd. Eich cyfrifoldeb chi fydd hysbysu'r Awdurdod Addysg Lleol a Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru os byddwch yn symud ysgol. Os byddwch yn symud i weithio mewn Awdurdod Addysg arall, rhaid i chi hysbysu'r Cydlynydd Sefydlu yn yr Awdurdod newydd ac yn yr Awdurdod blaenorol.

Yng Nghymru, dylid cwblhau'r Cyfnod Sefydlu o fewn pum mlynedd er y gallwch wneud un cais am estyniad.

Ar ddechrau'ch Cyfnod Sefydlu, rhaid i chi sicrhau bod eich Proffil Dechrau Gyrfa ar gael i'ch Tiwtor Sefydlu a'ch Pennaeth; chi fydd yn gyfrifol am ei ddefnyddio i gofnodi materion yn ymwneud â'ch datblygiad proffesiynol yn ystod y Cyfnod Sefydlu.

Athrawon Cyflenwi
Ni allwch gwblhau Cyfnod Sefydlu drwy addysgu fel athro cyflenwi byr dymor, ac ni allwch barhau fel athro cyflenwi byr dymor am fwy na phum mlynedd cyn i chi wneud eich Cyfnod Sefydlu. Gallwch wneud un cais am estyniad o 12 mis. Cysylltwch â'ch Cydlynydd Sefydlu i drafod hyn.

Nid yw cyfnodau o absenoldeb rhiant, mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadau yn cyfrif tuag at y terfyn amser o bum mlynedd ar gyfer addysgu fel athro cyflenwi byr dymor.

Os byddwch yn cyrraedd y terfyn ar gyfer addysgu fel athro cyflenwi byr dymor cyn i chi gwblhau eich Cyfnod Sefydlu, ni allwch barhau i weithio fel athro cyflenwi nes i chi gwblhau eich Cyfnod Sefydlu.

Ni fydd unrhyw ANG sy'n cyrraedd y terfyn ar gyfer addysgu fel athro cyflenwi yn colli ei Statws Athro Cymwysedig.

Mae modd i athro sy'n gweithio trwy asiantaeth gwblhau Cyfnod Sefydlu; nid y cyflogwr sy'n cyfrif, ond y cyfnod o waith.

Cofiwch nad yw'r cyfnod yn ôl-weithredol (*retrospective*), felly mae'n rhaid gwneud trefniadau ar ddechrau'r cyfnod i sicrhau ei fod yn cyfrif tuag at y Cyfnod Sefydlu.

Cyfrifoldebau'r Ysgol
Yn ystod eich Cyfnod Sefydlu dylai'r ysgol sicrhau:

- gostyngiad o 10% yn eich amserlen addysgu o'i gymharu ag athrawon eraill yn yr ysgol; mae hyn yn orfodol
- nad yw eich disgrifiad swydd yn gwneud galwadau afresymol
- nad ydych yn addysgu y tu allan i'r ystod oedran a'r pwnc/pynciau yr ydych wedi'ch hyfforddi ar eu cyfer
- cymorth ac arweiniad gan Diwtor Sefydlu, gyda rhaglen wedi'i theilwra ar gyfer eich anghenion chi, a chyfleoedd i chi osod targedau tymor byr, tymor canolig a thymor hir
- amserlen ar gyfer asesiadau a chyfarfodydd ffurfiol, gan gynnwys arsylwi'ch gwersi a thrafodaeth ddilynol; dylid arsylwi o leiaf unwaith bob hanner tymor gan gynnwys yn ystod eich pedair wythnos gyntaf yn y swydd; dylid cynnal o leiaf un cyfarfod adolygu proffesiynol bob hanner tymor
- eich bod yn derbyn gwybodaeth am eich cyflogaeth ac am bolisïau'r ysgol
- cyfle i chi arsylwi athrawon profiadol

Os ydych yn anfodlon â'r trefniadau
Os nad ydych yn fodlon ar gynnwys y rhaglen o fonitro, cymorth ac asesu a ddarperir ar eich cyfer, dylech weithredu cyn gynted â phosibl – mae'n bwysig eich bod yn cael y cyfle gorau posibl i ddatblygu sgiliau, ac yn gwneud y gorau o'r cyfleoedd sydd ar gael.

Yn gyntaf, dylech ddefnyddio gweithdrefnau mewnol yr ysgol ar gyfer codi pryderon proffesiynol, fel arfer drwy'r Pennaeth; ond, yn dibynnu ar natur eich anfodlonrwydd, efallai y byddech yn hapusach i drafod rhai o'ch pryderon gyda'ch tiwtor i ddechrau.

Yn ogystal, mae modd i chi gysylltu â'r Cydlynydd Sefydlu ANG sirol.

Os oes gennych unrhyw ansicrwydd, cysylltwch ag UCAC a byddwn yn gallu trafod y mater yn gyfrinachol, rhoi cyngor, a gweithredu ymhellach, yn ôl eich dymuniad. Cofiwch, mae'n gyfnod pwysig i chi, a dylech weithredu os nad ydych yn fodlon gyda'r sefyllfa.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sefydlu
Ar ddiwedd Cyfnod Sefydlu llwyddiannus, pan fydd ANG wedi cyrraedd y Safon Diwedd Sefydlu, bydd yn derbyn Tystysgrif Sefydlu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

Os tybier nad yw ANG wedi cyrraedd y Safon Diwedd Sefydlu ar ddiwedd y cyfnod, yna'r Cyngor Addysgu Cyffredinol fydd yn gwrando ar unrhyw apeliadau. Cofiwch holi am gyngor UCAC cyn mynd i apêl.

Dilynir y Cyfnod Sefydlu gan raglen dwy flynedd o Ddatblygiad Proffesiynol Cychwynnol (DPC). Ar ddiwedd y Cyfnod Sefydlu bydd angen anfon ffurflen gofrestru ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Cynnar i'r Cyngor Addysgu Cyffredinol; bydd hyn yn rhyddhau arian i gefnogi'r rhaglen.

Bydd athro sydd wedi gorffen y Cyfnod Sefydlu ym mis Gorffennaf yn dechrau ar y cyfnod DPC ym mis Medi. Bydd athro sy'n gorffen y Cyfnod Sefydlu ar ddiwedd tymor y gwanwyn yn dechrau ar y cyfnod DPC yn nhymor yr haf.

Mae'r dogfennau canlynol yn cynnwys adrannau sy'n nodi rôl, cyfrifoldebau a hawliau athrawon newydd gymhwyso, tiwtoriaid sefydlu a phenaethiaid, ac yn rhoi manylion llawn am y fframwaith Datblygiad Proffesiynol Cynnar:

Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso (Cylchlythyr 015/2008)
http://new.wales.gov.uk/dcells/publications/info_for_learning_providers/inductioandearly/guidancecircular/guidancecircularw.pdf?lang=cy

Llawlyfr Sefydlu a Datblygiad Proffesiynol Cynnar (Dogfen Wybodaeth 064/2008)
http://wales.gov.uk/dcells/publications/info_for_learning_providers/inductioandearly/2405992/inductionhandbookw.pdf?lang=cy&ts=1

Cyflog

Nid yw materion cyflog ac amodau gwaith athrawon wedi'u datganoli i Gymru. Y Llywodraeth yn San Steffan sy'n penderfynu'r materion hyn ar ôl derbyn argymhellion gan y Corff Adolygu Cyflogau Athrawon (*School Teachers' Review Body / STRB*).

Ceir manylion am dâl ac amodau gwaith athrawon yn y *School Teachers' Pay and Conditions Document* (STPCD) a gaiff ei ddiweddaru'n flynyddol.

Os ydych yn cael eich cyflogi trwy asiantaeth, gall yr asiantaeth benderfynu ar gyflog heb ystyried gofynion y *School Teachers' Pay and Conditions Document.*

Mae UCAC yn hysbysu aelodau'n flynyddol o'r tâl cyfredol.

Mae'r manylion ar gael:

- ym Mlwyddlyfr UCAC
- ar wefan UCAC: www.athrawon.com
- drwy gysylltu â Phrif Swyddfa UCAC
- ar wefan TeacherNet: www.teachernet.gov.uk

Y Brif Raddfa Gyflog
Corff Llywodraethu yr ysgol fydd yn penderfynu ar eich union gyflog, ar sail y pwyntiau canlynol:

- Mae'r brif raddfa cyflogau yn cynnwys 6 phwynt
- Ni wahaniaethir rhwng athrawon â graddau anrhydedd gwahanol
- Mae hawl gan y corff perthnasol (gan amlaf y Corff Llywodraethu) i gynnig pwyntiau ychwanegol am brofiad perthnasol y tu allan i addysgu
- Bydd athrawon yn derbyn un pwynt am bob blwyddyn o wasanaeth sydd ganddynt hyd nes cyrraedd pwynt 6
- Os nad yw perfformiad athro'n foddhaol yn dilyn yr adolygiad blynyddol, nid oes rhaid cynnig pwynt ychwanegol
- Mewn amgylchiadau arbennig, gall athro dderbyn dau bwynt yn dilyn yr adolygiad blynyddol

Amrediad Cyflog Uwch
Unwaith i athro gyrraedd pwynt 6 ar y brif raddfa gyflogau, gall wneud cais i groesi'r trothwy. Noder mai cyrraedd y pwynt sy'n cyfrif, nid nifer y blynyddoedd o addysgu.

Mae'r amrediad cyflog uwch yn cynnwys tri phwynt. Os yw athro, yn ôl yr asesiad trothwy, yn cyrraedd y safonau ôl-drothwy cenedlaethol, caiff ei roi ar bwynt 1 o'r amrediad cyflog uwch. Rhaid aros am ddwy flynedd, a mynd trwy ddau asesiad Rheoli Perfformiad llwyddiannus cyn cael camu i fyny i'r pwynt nesaf.

Treth Incwm
Bydd cyfran o'ch cyflog yn mynd fel taliad treth incwm. Mae gan bawb lwfans treth, sef swm o arian y gellir ei ennill heb orfod talu treth arno; bydd lwfans treth pawb yn wahanol.

Mae gan bawb Gôd Treth Incwm; defnyddir hwn i gyfrifo'ch incwm trethadwy, sef yr hyn sy'n weddill ar ôl tynnu'ch lwfansau. Mae pawb yn cael lwfans personol, ond mae lwfansau ychwanegol ar gael yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

Weithiau rhoddir Côd Treth Brys i athrawon newydd. Golyga hyn y byddwch yn talu mwy o dreth incwm nes y bydd gan eich cyflogwr y manylion priodol amdanoch. Ond peidiwch â phoeni, byddwch yn derbyn unrhyw dreth ychwanegol a dalwyd gennych yn ôl.

Er mwyn osgoi talu gormod i gychwyn, sicrhewch eich bod yn derbyn Ffurflen P46 oddi wrth eich cyflogwr newydd a'ch bod yn ei chwblhau a'i dychwelyd yn syth. Ffurflen yw hon ar gyfer pobl sydd heb fod yn gweithio o'r blaen.

Os ydych wedi gweithio o'r blaen, dylech dderbyn Ffurflen P45 gan eich cyn-gyflogwr.

Yswiriant Gwladol
Bydd cyfran o'ch cyflog hefyd yn mynd tuag at Yswiriant Gwladol. Cyfraniad yw hwn a delir i'r Wladwriaeth ar gyfer budd-daliadau salwch, diweithdra, mamolaeth, gweddwdod a phensiwn gwladol.

Cynllun Pensiwn
Ers mis Ionawr 2007 mae 6.4% o gyflog athro yn cael ei dalu i Gynllun Pensiwn Athrawon (mae'r cyflogwr yn cyfrannu 14.1%). **Mae UCAC yn eich cynghori i ystyried yn ofalus cyn newid y trefniant hwn gan fod telerau'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn ffafriol iawn.**

Gallwch hefyd wneud cyfraniadau ychwanegol at eich pensiwn a'ch ymddeoliad.

Mae UCAC wedi meithrin cysylltiadau â chwmni Gofalaeth Asedau Sterling. Mae cwmni Sterling yn aelod o The M&E Network Ltd a reolir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (*Financial Services Authority*, FSA).

Cewch gyngor ganddynt ar bensiynau (ynghyd ag yswiriant bywyd, buddsoddiadau, morgeisi ac ati). Gallwch gysylltu drwy: Gofalaeth Asedau Sterling, Tŷ Sterling, 13 Eastgate, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AR; 01970 617622; financial@sterling-a-m.com

Am fanylion pellach gweler taflen UCAC:

- Ymddeoliad a'ch Pensiwn: www.athrawon.com/images/Upload/YmddeoliadNAEKK.pdf

Neu ewch i wefan Pensiynau Athrawon: www.teacherspensions.net

Taliadau Ychwanegol

Grantiau Dysgu: Ar ddiwedd Cyfnod Sefydlu llwyddiannus, mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig grantiau dysgu i athrawon sydd wedi dilyn cyrsiau ôl-raddedig (h.y. TAR / *PGCE*) mewn meysydd penodol lle mae prinder athrawon ('cyrsiau blaenoriaeth'). Er mwyn bod yn gymwys am y grant, rhaid bod athro'n dysgu'r union bwnc hwnnw fel prif neu unig bwnc.

Dyma'r pecyn o gymhellion sydd ar gael i'r rhai a ddechreuodd cyrsiau TAR uwchradd yn y flwyddyn academaidd 2009-10:

- Mathemateg a Gwyddoniaeth - £5,000
- Addysg Grefyddol, Cerddoriaeth, Cymraeg, Ieithoedd Modern, Technoleg (gan gynnwys Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth) - £2,500

Nodwch y bydd rhaid i chi dalu treth ar y grant.

Ceir ffurflen gais gan y darparwr hyfforddiant, a bydd angen i'r darparwr, yr ysgol a chithau lenwi'r ffurflen cyn ei hanfon at yr Awdurdod Addysg Lleol.

Taliadau Recriwtio a Chadw: Gellir hefyd gynnig tâl ychwanegol neu gynnig cymorth ariannol, cefnogaeth neu fuddiant i athrawon am gyfnod o hyd at, *a dim mwy na*, thair blynedd i ddenu ymgeisydd i swydd.

Gellir gwneud hyn hefyd i gadw rhywun mewn swydd, ac yn yr achos hwn gellir cynnig y tâl neu'r buddiannau hyn am fwy na thair blynedd mewn amgylchiadau arbennig. Eto, y corff perthnasol (gan amlaf Corff Llywodraethu'r ysgol) fydd yn penderfynu pwy fydd yn derbyn y taliadau hyn.

Ceir fanylion llawn yma:
http://educationcymru.org/ttwel/sites/default/files/Wel-TTIS%202008-09%20Guidance.pdf

Lwfansau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD):
Cynigir Lwfans Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu - CAD (*Teaching and Learning Responsibility - TLR*) i athrawon sy'n derbyn cyfrifoldebau sy'n canolbwyntio ar addysgu a dysgu ac sy'n ychwanegol i'w dyletswyddau fel athrawon dosbarth.

Lwfansau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA):
Cynigir taliadau ychwanegol i athrawon sy'n bennaf gyfrifol am addysgu disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Cysylltwch ag UCAC am ragor o wybodaeth.

Amodau Gwaith

Ceir tair ffynhonnell ar gyfer amodau gwaith athrawon:

- *School Teachers' Pay and Conditions Document* (STPCD / 'y Llyfr Glas')
- Cytundebau cenedlaethol rhwng Awdurdodau Addysg Lleol ac undebau yn ymwneud â materion megis cyflogau, salwch, mamolaeth, ac ati ('y Llyfr Bwrgwyn')
- Cytundebau lleol (gellir creu cytundebau lleol sy'n rhagori ar gytundebau cenedlaethol)

Gan fod gwahaniaethau yn nhelerau'r gwahanol siroedd, dylech holi yn eich ysgol am eich union amodau gwaith. Dylai fod copïau o'r holl ddogfennau perthnasol, gan gynnwys y STPCD a'r Llyfr Bwrgwyn, ar gael yn eich ysgol.

Mae'r tâl ac amodau gwaith sy'n ymddangos yn y STPCD yn berthnasol i athrawon sy'n gyflogedig gan Awdurdod Addysg Lleol. Nid ydynt yn berthnasol i athrawon sy'n gweithio trwy asiantaeth athrawon. Nid ydynt oll yn berthnasol i athrawon cyflenwi eraill.

Mae disgwyl i'ch cyflogwr dynnu'ch sylw at unrhyw newidiadau a wneir i'ch amodau gwaith.

Oriau Gwaith

Rhaid i athrawon fod ar gael i weithio'n broffesiynol o dan gyfarwyddyd rhesymol y Pennaeth am 1265 awr, dros 195 diwrnod mewn blwyddyn ysgol. Gelwir y rhain yn 'oriau cyfeiriedig'. Ni ellir cyfri'r amser teithio rhwng y cartref a'r ysgol at y cyfanswm o 1265 awr.

Nid oes angen addysgu plant am fwy na 190 o'r dyddiau hyn. Mae'r pum niwrnod arall yn cael eu neilltuo ar gyfer Hyfforddiant Mewn Swydd (HMS), datblygu'r cwricwlwm a chyfarfodydd athrawon i baratoi ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Mae hawl gyfreithiol gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes i wneud newidiadau dros dro i'r nifer o ddiwrnodau HMS oherwydd ffactorau megis datblygiadau cwricwlaidd swmpus, cyhyd â bod y cyfanswm o 195 diwrnod yn aros yr un peth.

Mae'r oriau i'w dyrannu'n rhesymol dros y 195 diwrnod, ond nid oes rhaid rhannu'r oriau yn gyfartal rhwng y dyddiau hyn. Awgrymir bod aelodau UCAC yn cyfrif yn

ofalus ac yn cofnodi eu horiau. Petai anghydfod yn codi, bydd angen y manylion hyn arnoch.

Mae amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA) yn rhan o'r oriau cyfeiriedig. Ond mae'n rhaid i athrawon farcio, paratoi gwersi a chwblhau adroddiadau y tu allan i'r 1265 awr, i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol i gyflawni'r swydd yn foddhaol. Mae disgwyl i'r ysgol ystyried materion cydbwysedd bywyd a gwaith. Rhaid i'r oriau gwaith, uwchben y 1265 awr gyfeiriedig, fod yn rhesymol.

Cyn dechrau'r flwyddyn ysgol newydd, dylai'r Pennaeth sicrhau bod pob athro'n derbyn copi o galendr digwyddiadau'r ysgol sy'n cofnodi'r holl gyfarfodydd a digwyddiadau. Ni ddylid disgwyl i athro fynychu mwy na 6 chyfarfod rhieni mewn blwyddyn, a dylai'r cyfarfodydd hyn gychwyn o fewn hanner awr, fan pellaf, i ddiwedd diwrnod addysgu'r ysgol. Fel arall, dylid cyfrif unrhyw amser rhwng diwedd amserlen dysgu'r ysgol a'r cyfarfod fel rhan o'r 1265 awr.

Am ragor o wybodaeth, gweler taflen UCAC:

Oriau Cyfeiriedig (*Directed Time*):
www.athrawon.com/images/Upload/OriauCyfeiriedigWOBJQ.pdf

Tasgau Gweinyddol a Chlerigol
Mae cyflawni tasgau gweinyddol a chlerigol yn ddefnydd amhriodol o amser athro. Nid oes disgwyl i athrawon gwblhau tasgau gweinyddol neu glerigol yn rheolaidd (*routinely*). Yn ôl y *School Teachers' Pay and Conditions Document* nid oes rhaid i dasg fod yn rhywbeth y cyflawnir yn aml i'w ystyried yn *routine*, e.e. coladu adroddiadau disgyblion.

Staff gweinyddol ac ategol ddylai fod yn gyfrifol am gyflawni tasgau o'r fath. Mae hyn yn wir ar gyfer *bob* athro, gan gynnwys rhai ar gytundebau parhaol, tymor penodol a dros dro, athrawon sydd ar gytundebau rhan-amser a'r rhai sy'n aelodau o'r grŵp arweinyddiaeth.

Nid canllawiau dewisol yw'r rhain. Nid yw'r tasgau a restrir isod yn rhan o'ch cytundeb gwaith:

- Casglu arian oddi wrth blant a rhieni
- Ymchwilio i absenoldebau
- Llungopïo swmpus
- Paratoi gohebiaeth swmpus, gan gynnwys llythyron safonol i rieni a disgyblion
- Cynhyrchu, llungopïo a rhannu cylchlythyrau
- Cynhyrchu rhestrau dosbarth ar sail gwybodaeth a geir gan athrawon

- Cadw a ffeilio adroddiadau (*records*), gan gynnwys adroddiadau sy'n seiliedig ar ddata a geir gan athrawon
- Paratoi, gosod a thynnu lawr arddangosfeydd dosbarth
- Cynhyrchu dadansoddiadau o ffigurau presenoldeb
- Cynhyrchu dadansoddiadau o ganlyniadau arholiadau
- Coladu adroddiadau disgyblion
- Gweinyddu profiad gwaith (ac eithrio dewis y lleoliadau, cynnig cyngor i ddisgyblion ac ymweld â hwy)
- Gweinyddu arholiadau allanol a mewnol
- Gweinyddu cyflenwi ar gyfer athrawon absennol
- Archebu, gosod a chynnal a chadw caledwedd a meddalwedd TGCh
- Archebu offer a stoc newydd
- Catalogio, paratoi, dosbarthu a chynnal a chadw offer a deunyddiau; cyfrif stoc
- Gwneud nodiadau manwl neu gadw cofnodion ffurfiol o gyfarfodydd
- Cydlynu a chynnig ceisiadau (am gyllid, statws ysgol, a.y.b.) gan ddefnyddio mewnbwn gan athrawon ac eraill
- Trosglwyddo data am ddisgyblion o bapur i systemau cyfrifiadurol
- Rheoli'r data yn y system rheoli ysgol

Efallai fod tasgau eraill yr ydych yn eu cyflawni sydd ag elfen weinyddol iddynt. Y cyngor sy'n ymddangos yn y *School Teachers' Pay and Conditions Document* yw y dylid gofyn y cwestiynau canlynol am bob tasg cyn penderfynu pwy ddylai gyflawni'r dasg:

a) Oes angen gwneud y dasg o gwbl?

b) Ydy'r dasg o natur weinyddol neu glerigol?

c) Oes angen sgiliau neu farn broffesiynol athro i gwblhau'r dasg?

Cofiwch am y canlynol, hefyd:

Amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA)
Mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu cyfnod sy'n cyfateb i 10% o'ch amser dysgu fel amser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae'n rhaid i'r amser CPA fod:

- mewn blociau amser heb fod yn llai na 30 munud

- wedi'i ddiogelu o fewn amserlen arferol yr ysgol (h.y. bob wythnos neu bythefnos)
- yn ystod oriau dysgu arferol yr ysgol (h.y. nid wedi ei ychwanegu ar ddechrau neu ar ddiwedd y diwrnod ysgol)

Ni ddylech warchod unrhyw ddosbarthiadau na chyflawni dyletswyddau eraill o fewn yr amser digyswllt hwn.

Mae'r amser CPA yn ychwanegol at y 10% o'r amser digyswllt a neilltuwyd ar eich cyfer fel athro ar Gyfnod Sefydlu.

Gweler taflen UCAC:

Amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA):
www.athrawon.com/images/Upload/CPASXHNL.pdf

Arholiadau
Ni ddylai athrawon arolygu arholiadau allanol. Mae'n rhesymol i ddisgwyl i'r athro pwnc fod yn bresennol ar ddechrau arholiad allanol i sicrhau nad oes problemau gyda'r papur arholiad, ond nid oes angen i'r athro fod yn bresennol am gyfnod estynedig. Mae presenoldeb athro mewn arholiad i ddigwydd gyda chytundeb y Pennaeth. Ni ddylai athrawon arolygu arholiadau mewnol os yw amserlen arferol yr ysgol wedi'i haddasu er mwyn creu sefyllfa ffug arholiadau allanol.

Prin Gyflenwi (*Rarely cover*)
Dim ond yn 'anaml' y disgwylir i athrawon wneud gwaith cyflenwi dros eu cydweithwyr – dim ond mewn amgylchiadau pan nad oedd modd rhagweld absenoldeb cydweithiwr. Ar gyfer absenoldebau tymor hir a digwyddiadau wedi'u trefnu ymlaen llaw, ni ddisgwylir i athrawon gyflenwi. Rhaid i ysgol wneud pob ymdrech posib i wneud trefniadau eraill cyn gofyn i athro gyflenwi ar fyr rybudd.

Gweler taflen UCAC:

Rheolau Cyflenwi: Gweithredu Prin Gyflenwi:
www.athrawon.com/images/Upload/CPASXHNL.pdf

Amser a enillwyd (*Gained time*): Os ydych yn ennill amser rhydd oherwydd, er enghraifft, bod eich dosbarth ar ymweliad neu mewn arholiad allanol, mae hawl gan y Pennaeth ofyn i chi wneud tasgau arbennig sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu yn ystod yr amser 'rhydd' hwnnw.

Absenoldeb Salwch
Os byddwch yn sâl, gadewch i'r ysgol wybod cyn gynted â phosibl, gan ddweud beth yw natur y salwch ac a oes syniad gennych o hyd y salwch.

Mae hawliau salwch athrawon yn dibynnu ar y blynyddoedd o wasanaeth. Dyma'r telerau arferol ond mae gan bob Awdurdod Addysg Lleol yr hawl i'w hamrywio:

- salwch yn ystod y 4 mis cyntaf fel athro: cyflog llawn am 25 diwrnod gwaith
- ar ôl cwblhau 4 mis calendr: cyflog llawn am 25 diwrnod gwaith; hanner cyflog am y 50 diwrnod gwaith sy'n dilyn
- ail flwyddyn: cyflog llawn am 50 diwrnod gwaith; hanner cyflog am y 50 diwrnod gwaith sy'n dilyn
- trydedd flwyddyn: cyflog llawn am 75 diwrnod gwaith; hanner cyflog am 75 diwrnod gwaith
- pedwaredd flwyddyn a blynyddoedd canlynol: cyflog llawn am 100 diwrnod gwaith; hanner cyflog am 100 diwrnod gwaith

Fel arfer, nid oes angen papur meddyg tan yr wythfed diwrnod o absenoldeb oherwydd salwch. Ond pan fydd yr absenoldeb oherwydd salwch yn para 4-7 niwrnod rhaid i'r athro gwblhau ffurflen hunandystio (*self-certificate form*) ar ôl dychwelyd i'r gwaith.

Nid oes disgwyl i chi ymgymryd ag unrhyw waith yn ystod eich absenoldeb.

Absenoldebau Eraill
Bydd eich hawl i absenoldeb oherwydd ffactorau eraill, megis profedigaeth neu symud tŷ, yn dibynnu ar gytundebau cyflogaeth leol ar y materion hyn. Gall absenoldeb o'r fath fod 'gyda thâl' neu 'heb dâl', ond rhaid cael caniatâd y Pennaeth a/neu'r Llywodraethwyr a/neu'r Awdurdod Addysg Lleol. Fel arfer, bydd y Pennaeth yn penderfynu yn unol â chanllawiau'r Llywodraethwyr a/neu'r Awdurdod Addysg Lleol. Gellir apelio i'r naill gorff neu'r llall neu, o bosibl, y ddau.

Ceir rheolau ychwanegol ar gyfer absenoldeb rhiant (*parental leave*) ac absenoldeb i'r rheiny sydd â chyfrifoldebau gofal.

Cofier bod hawl statudol gan unrhyw athro i fod yn absennol er mwyn cyflawni dyletswyddau undebol swyddogol.

Bydd manylion yr holl absenoldebau hyn yn y cytundeb lleol.

Trefniadau Cwyno a Disgyblu
Mae gan bob Awdurdod Addysg Lleol drefniadau swyddogol a ffurfiol ar gyfer ymdrin â chwynion. Mwy na thebyg, bydd Corff Llywodraethol eich ysgol wedi mabwysiadu'r trefniadau hyn ynghyd â Threfn Disgyblu.

Terfynu Cytundeb
Rhaid i bob athro roi, neu gael, rhybudd o 2 fis (a 3 mis yn nhymor yr haf) cyn terfynu cytundeb ar ddiwedd tymor ysgol.

Rhaid i bob Pennaeth roi, neu gael, rhybudd o 3 mis (a 4 mis yn nhymor yr haf), cyn terfynu cytundeb ar ddiwedd tymor ysgol.

Diswyddo/Adleoli
Mewn sefyllfa lle bo ysgol yn wynebu diswyddo gorfodol oherwydd problemau cyllid, mae camau penodol y mae'n rhaid eu dilyn cyn diswyddo unrhyw athro.

Mae UCAC bob amser yn pwyso ar ysgol i geisio osgoi diswyddiadau, ac yn arbennig felly diswyddiadau gorfodol.

Os bydd diswyddiadau yn anorfod, gellir cynnig ymddeoliad cynnar (gwirfoddol) neu ddiswyddiadau gwirfoddol, yn gyntaf, cyn dilyn llwybr diswyddiadau gorfodol. Rhaid i'r ysgol gynnal arolwg staffio o ran anghenion y cwricwlwm ac awdit o sgiliau'r staff. Rhaid i'r Llywodraethwyr sicrhau y bydd hi'n bosib cynnal gofynion yr ysgol ar ôl unrhyw doriad.

Gall Awdurdod Addysg Lleol geisio adleoli athro yn hytrach na'i ddiswyddo'n orfodol, ond nid oes rheidrwydd ar unrhyw Gorff Llywodraethu i dderbyn yr athro.

Cyngor Cyffredinol

Perthynas gyda disgyblion
Mae'n hollbwysig cadw perthynas broffesiynol gyda'ch disgyblion, gan gofio'ch bod mewn sefyllfa o ofalu amdanynt a bod gennych gyfrifoldeb am eu diogelwch. Rhaid bod yn ofalus iawn rhag mynd yn or-gyfeillgar; gall ymddygiad o'r fath achosi problemau disgyblaeth yn ogystal â chael ei gam-ddehongli gan y disgybl.

O dan Ddeddf Tramgwyddau Rhywiol (Diwygio) 2000 mae hi'n drosedd i berson sydd dros 18 oed gael perthynas rhywiol neu ymddwyn yn rhywiol gyda pherson sydd o dan 18 oed, os ydynt mewn sefyllfa o ymddiriedaeth (*position of trust*) â'r person ifanc. Mae'r gosb am y drosedd o gamddefnyddio ymddiriedaeth (*abuse of trust*) yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dedfryd estynedig – bydd modd ychwanegu cyfnod ar drwydded (*on licence*) ar derfyn cyfnod mewn carchar. Os yw'r troseddwr dros 20 oed bydd yn dod o dan ofyniad hysbysiad (*requirement of notification*) Deddf Troseddwyr Rhywiol 1997.

Facebook
Mae gwefannau fel Facebook yn cynnig llawer o hwyl, ac yn gallu bod yn hynod ddefnyddiol. Serch hynny, rhaid i athrawon fod yn ofalus dros ben gyda'u defnydd o'r gwefannau hyn – cofiwch fod llawer o ddarpar-gyflogwyr yn chwilio am wybodaeth am ymgeiswyr ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol, a gallai rhieni, a hyd yn oed disgyblion, weld rhai rhannau o'ch proffil.

Dyma ychydig o bwyntiau i'w cadw mewn cof:

- Gwiriwch eich gosodiadau preifatrwydd i sicrhau eich bod yn rheoli pwy all weld yr wybodaeth amdanoch
- Cymrwch ofal mawr ynglŷn â'r math o wybodaeth rydych chi'n ei gyhoeddi amdanoch eich hun, a hefyd y math o luniau rydych chi'n eu postio
- Peidiwch â dod yn 'ffrindiau' arlein gyda disgyblion; meddyliwch ddwywaith cyn dod yn 'ffrindiau' gyda chyn-ddisgyblion
- Peidiwch â chyfeirio at eich lle gwaith na'ch cydweithwyr, nac ychwaith osod lluniau ohonynt ar eich proffil

- Peidiwch â gwneud defnydd personol o wefannau megis Facebook, Bebo, Myspace, Flickr neu Twitter, na blogio, yn ystod oriau gwaith

Gweler taflen UCAC:

Defnydd Diogel a Chyfrifol o E-Dechnoleg: www.athrawon.com/images/Upload/E-DechnolegGTGHG.pdf

Rhoi moddion

Nid yw amodau cyflogaeth athrawon yn cynnwys rhoi moddion na goruchwylio disgybl sy'n ei gymryd, felly nid oes dyletswydd gyfreithiol ar staff ysgol i roi moddion i ddisgyblion – swyddogaeth wirfoddol yw hon.

Ni ddylai unrhyw weithiwr na gwirfoddolwr roi triniaeth heb yn gyntaf dderbyn hyfforddiant priodol. Y cyflogwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod unrhyw staff sy'n fodlon yn cael hyfforddiant i gynorthwyo disgyblion ag anghenion meddygol.

Serch hynny, mae dyletswydd ar athro i weithredu fel y byddai unrhyw riant doeth, rhesymol, er mwyn sicrhau bod disgyblion yn iach ac yn ddiogel ar safle'r ysgol. Gallai hyn, o dan amgylchiadau eithriadol, gynnwys gweithredu mewn argyfwng.

Yr unig gyngor undebol y gall UCAC ei gynnig yng nghyd-destun rhoi cymorth meddygol arbenigol yw peidiwch â gwirfoddoli i ysgwyddo cyfrifoldebau meddygon a nyrsys – nhw yw'r arbenigwyr cydnabyddedig. Ond petai aelod yn gwirfoddoli, a bod rhywbeth yn mynd o'i le, er gwaethaf derbyn hyfforddiant trylwyr a dilyn canllawiau'r sir i'r llythyren, yn naturiol, byddai UCAC yn cynnig cefnogaeth lawn.

Talfyriadau Defnyddiol

AAA Anghenion Addysgol Arbennig (SEN)

AAY Anghenion Addysgol Ychwanegol (AEN)

AEN Additional Educational Needs (AAY)

APADGOS Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (DCELLS)

AALl Awdurdod Addysg Lleol (LEA)

APYT Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (DCSF)

AB Addysg Bellach (FE)

ADEW Association of Directors of Education in Wales (CCAC)

ANG Athro Newydd Gymhwyso (NQT)

AST Advanced Skills Teacher

AVCs Additional Voluntary Contributions (Pensiynau)

AU Addysg Uwch (HE)

AYU Amrediad Ysgol Unigol (ISR)

CAD Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu (TLR)

CBAC Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (WJEC)

CCAC Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW)

CDLU Cynorthwyydd Dosbarth Lefel Uwch (HLTA)

CGC Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ)

CGCC Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol (GNVQ)

CLlLC Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)

CPA Cynllunio, Paratoi ac Asesu – amser CPA (PPA)

CPD Continuing Professional Development (DPP)

CRB Criminal Records Bureau (Swyddfa Cofnodion Troseddol)

CRhA Cymdeithas Rhieni ac Athrawon (PTA)

CTY Cynllun Trefniadaeth Ysgol (SOP)

CyngACC Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (GTCW)

CYSAG Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (SACRE)

CYDAG Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg

DCELLS Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills (APADGOS)

DCSF Department for Children, Schools and Families (APYT)

DPC Datblygiad Proffesiynol Cynnar (EPD)

DPP Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD)

EAB Examinations' Appeals Board

EPD Early Professional Development (DPC)

FE Further Education (AB)

FSAVCs Free Standing Additional Voluntary Contributions (Pensiynau)

GCaD Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu (NGfL)

GNVQ General National Vocational Qualification (CGCC)

GTCW General Teaching Council for Wales (CyngACC)

HCA Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon (ITT)

HE Higher Education (AU)

HLTA Higher Level Teaching Assistant (CDLU)

HMS Hyfforddiant Mewn Swydd (INSET)

INSET In-service Education and Training (HMS)

ISR Individual School Range (AYU)

ITT Initial Teacher Training (HCA)

JCQ Joint Council for Qualifications

LEA Local Education Authority (AALl)

MYM Mudiad Ysgolion Meithrin

NFER National Foundation for Education Research

NGfL National Grid for Learning (GCaD)

NQT Newly Qualified Teacher (ANG)

NVQ National Vocational Qualification (CGC)

Ofqual Office of Qualifications and Examinations Regulation

PGCE Post-Graduate Certificate in Education (TAR)

PPA Planning, Preparation and Assessment time (CPA)

PRU Pupil Referral Unit (UCD)

PTA Parent-Teacher Association (CRhA)

QCDA Qualifications and Curriculum Development Agency

QTS Qualified Teacher Status (SAC)

RhAG Rhieni dros Addysg Gymraeg

SAC Statws Athro Cymwysedig (QTS)

SACRE Standing Advisory Council on Religious Education (CYSAG)

SCYA Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER)

SEN Special Educational Needs (AAA)

SOP School Organisation Plan (CTY)

STPCD School Teachers' Pay and Conditions Document ("Y Llyfr Glas")

STRB School Teachers' Review Body (Corff Adolygu Cyflogau Athrawon)

TAR Tystysgrif mewn Addysg i Raddedigion (PGCE)

TDA Training and Development Agency for Schools

TLR Teaching and Learning Responsibilities (CAD)

TUC Trades Union Congress (Cyngres yr Undebau Llafur)

UCAS Universities and College Admissions Service

UCD Uned Cyfeirio Disgyblion (PRU)

WAMG Workload Agreement Monitoring Group

WJEC Welsh Joint Education Committee (CBAC)

WLGA Welsh Local Government Association (CLILC)

Gwefannau Defnyddiol

Cyrff, Mudiadau a Sefydliadau
UCAC: www.athrawon.com

APADGOS - Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth y Cynulliad: http://cymru.gov.uk/topics/educationandskills/?lang=cy

Yr Awdurdod Diogelu Annibynnol (ADA/*ISA)*: www.isa-gov.org.uk

CYDAG – Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg: www.cydag.org.uk

CBAC - Cyd-bwyllgor Addysg Cymru: www.cbac.co.uk

CyngACC - Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru: www.gtcw.org.uk

Estyn: www.estyn.gov.uk

Plant yng Nghymru: www.plantyngnghymru.org.uk

Swyddfa Cofnodion Troseddol (*CRB*): www.crb.homeoffice.gov.uk/default.aspx?lang=cy-gb

Teachers' Pensions: www.teacherspensions.net

Teacher Support Cymru: www.teachersupport.info/cymru

Adnoddau
BBC Cymru: gwefan addysg: www.bbc.co.uk/cymru/addysg

Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Cymru: www.gcad-cymru.org.uk

Llyfrgell Genedlaethol Cymru: E-Adnoddau: www.cymruarywe.org

UCAC

Aelodaeth
Yn ystod eich cyfnod fel athro dan hyfforddiant, roeddech chi'n aelod o UCAC, yn rhad ac am ddim. Bydd eich aelodaeth ddi-dâl o UCAC yn parhau am y tymor cyntaf ar ôl gadael y brifysgol. O fis Ionawr, bydd angen dechrau talu tâl aelodaeth – dim ond £1 y mis am y flwyddyn gyntaf (Ionawr-Rhagfyr). Mae tâl aelodaeth UCAC yn cymharu'n ffafriol iawn â'r undebau athrawon eraill.

Mae ymaelodi ag undeb yn bwysig iawn er mwyn sicrhau bod gennych rywun yn gofalu am eich buddiannau ac i'ch cynorthwyo pe bai trafferthion yn codi.

Mae'n llawer rhatach i ymuno ag undeb nag i dalu bil cyfreithiwr.

Hanes a Phwrpas UCAC
Sefydlwyd UCAC yng Nghaerdydd yn 1940 gan grŵp o athrawon oedd yn gweld yr angen am undeb athrawon gydag amcanion, polisïau a gwasanaethau oedd yn cyfateb i anghenion penodol athrawon yng Nghymru. Ers hynny, mae UCAC wedi tyfu a datblygu ym mhob agwedd, ac erbyn hyn mae penaethiaid a darlithwyr yn aelodau hefyd.

Mae UCAC:

- **yn amddiffyn buddiannau athrawon a darlithwyr Cymru**
  Mae UCAC wedi dangos ei allu i ennill achosion pwysig dros ei aelodau ac yn brwydro'n gyson i sicrhau gwell amodau gwaith i athrawon a darlithwyr Cymru.
- **yn cynnig cymorth parod o fewn cyrraedd**
  Mae Swyddogion Maes cyflogedig llawn amser wrth law i ateb eich cwestiynau a datrys eich problemau; mae ganddynt fynediad at rwydwaith cenedlaethol o gyfreithwyr sy'n gallu cynnig cefnogaeth i bob aelod sydd ei hangen.
- **yn credu mewn cyfundrefn addysg annibynnol i Gymru**
  UCAC yw'r unig undeb sy'n galw am gyfundrefn addysg annibynnol i Gymru, gyda'r holl bwerau dros addysg yn nwylo Llywodraeth y Cynulliad.

- **â'i Brif Swyddfa yng Nghymru ac yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg**
  UCAC yw'r unig undeb athrawon sy'n gweithredu'n gyfan gwbl o fewn Cymru, a thrwy gyfrwng y Gymraeg.
- **yn gweithio'n ddiflino dros y Gymraeg yn y system addysg**
  Mae UCAC yn gweithio i sicrhau statws a pharch i'r Gymraeg o fewn y byd addysg yng Nghymru.

Gwasanaethau UCAC

Cyngor a chymorth i aelodau: Mae UCAC yn rhoi cyngor a chymorth yn ddi-dâl i'w aelodau, gan gynnwys cyngor cyfreithiol os oes angen. Os oes gennych broblem, cysylltwch â'r Brif Swyddfa; bydd pob aelod o staff UCAC yn parchu cyfrinachedd yn llwyr. **Ni ddylai unrhyw aelod gysylltu â chyfreithiwr cyn cysylltu ag UCAC**.

Gall UCAC wrthod cymorth cyfreithiol mewn mater a ddigwyddodd cyn y dyddiad ymaelodi.

Y Cynllun Digolledu: Trwy'r Cynllun hwn, digolledir aelod o UCAC (uchafswm o £250 mewn blwyddyn galendr) am ddifrod *bwriadol* i'w gar neu eiddo personol, neu am ladrad. Mewn achos o ladrad, dim ond am eitemau a ddarperir neu a ddefnyddir at bwrpasau gwaith y digolledir aelod. Ceir ffurflen gais o Brif Swyddfa UCAC; nodir y rheolau'n llawn ar y ffurflen.

Y Gymhorthfa: Mae'r Gymhorthfa'n bodoli er mwyn:

- estyn cymorth ariannol i aelodau UCAC sy'n ddigyflog neu'n derbyn cyflog bychan oherwydd salwch neu o ganlyniad i ddamwain
- estyn cymorth i weddw/gŵr gweddw cyn-aelod o UCAC, neu'r teulu os ydynt mewn angen neu'n dioddef afiechyd difrifol

  Cysylltwch â'r Brif Swyddfa am ragor o fanylion.

Swyddfan: Mae gan UCAC, mewn cydweithrediad ag ETeach, wasanaeth chwilio am swyddi addysgu ar-lein, sef 'Swyddfan'. Mae'r gwasanaeth ar gael ar wefan UCAC: www.athrawon.com